**Egwyddorion lefel uchel ar gyfer cynnal asesiadau Siarad ITM a Gwyddeleg**

Mae cyrff dyfarnu y CGC (AQA, CCEA, Pearson a CBAC) wedi cynhyrchu'r egwyddorion lefel uchel hyn ar gyfer cynnal asesiadau Siarad ITM a Gwyddeleg.

**Nid yw**'r ddogfen hon yn disodli cyfarwyddiadau'r cyrff dyfarnu eu hunain ar gyfer cynnal asesiadau Siarad ITM a Gwyddeleg. **Rhaid** i ganolfannau **barhau i gyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â nhw –**

**AQA**

TGAU (pob un o'r ITM): AQA | GCSE | French | Assessment resources

TAG UG (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg): AQA | AS and A-level | French | Assessment resources

TAG Safon Uwch (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg): AQA | AS and A-level | French | Assessment resources

**CCEA**

TGAU (pob un o'r ITM a Gwyddeleg): GCSE Modern Languages: Guidance for the Conduct of the Speaking Examination

TAG UG (ITM a Gwyddeleg): AS Conduct and Administration of Speaking Tests

TAG U2 (ITM a Gwyddeleg): A2 Conduct and Administration of Speaking Tests

**CBAC/Eduqas**

Eduqas TGAU
Eduqas UG
CBAC TGAU
CBAC UG
CBAC Safon Uwch

**Pearson**

gcse-mfl-administrative-support-guide.pdf (pearson.com)
A Level Administrative Support Guide - Conducting Speaking Assessment (pearson.com)

## 1. Beth mae'n rhaid i ganolfannau ei wneud i baratoi ar gyfer yr asesiadau Siarad?

**Gwirio'r canlynol**:

- yr offer ac ansawdd y recordiadau **cyn** yr asesiad;
- bod yr ystafell i'w defnyddio ar gyfer cynnal yr asesiad Siarad yn briodol. Mae angen i leoliad yr ystafell fod yn dawel heb unrhyw sŵn na phethau sy'n tynnu sylw gan ffynonellau allanol;
- bod poster y CGC *Rhybudd i ymgeiswyr* a phoster y CGC *Eitemau heb eu caniatáu* wedi'u harddangos mewn man amlwg y tu allan i'r ystafell arholiadau;
- cyfarwyddiadau'r corff dyfarnu i weld a oes angen ystafell baratoi ar gyfer yr ymgeisydd. Os oes, gwnewch yn siŵr bod goruchwyliwr wedi'i drefnu i oruchwylio'r ymgeisydd;
- bod y person sy'n cynnal yr asesiad Siarad TGAU ITM / Gwyddeleg wedi cael ei gymeradwyo gan bennaeth y ganolfan. **Rhaid** iddo fod wedi derbyn hyfforddiant trylwyr, gan ddeall y gofynion ar gyfer cynnal yr asesiad Siarad a'r ddogfennaeth i'w chwblhau.

| |
|---|
| Ar gyfer asesiadau Siarad TAG UG, U2 a Safon Uwch ITM a Gwyddeleg, rhaid sicrhau bod ystafell baratoi/briffio ac ystafell asesu ar gael i'r Arholwr sy'n Ymweld. |

## 2. Beth mae'n rhaid i ganolfannau ei wneud wrth gynnal asesiadau Siarad TGAU ITM a Gwyddeleg?

2.1 **Rhaid** i'r athrawon sy'n arholi gynnal asesiadau Siarad TGAU ITM a Gwyddeleg.

**2.2** **Ni all** perthynas i'r ymgeisydd gynnal asesiad Siarad TGAU ITM / Gwyddeleg oni bai bod y berthynas yn aelod o'r staff addysgu. Os yw hyn yn wir, **rhaid** i'r ganolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu am y gwrthdaro buddiannau posibl. Bydd methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.

2.3 **Rhaid** i athrawon sy'n arholi sy'n cynnal asesiad Siarad TGAU ITM / Gwyddeleg sicrhau bod popeth sy'n cael ei ddweud wrth yr ymgeisydd yn ystod yr asesiad i'w glywed yn glir ar y recordiad.

**Ni ddylai** athrawon sy'n arholi:

- sibrwd geiriau ac ymadroddion unigol o gwbl. Rhaid sicrhau bod popeth sy'n cael ei ddweud wrth yr ymgeisydd i'w glywed yn glir ar y recordiad;
- gwneud unrhyw ystumiau â'r dwylo neu unrhyw ffurf arall ar gyfathrebu di-eiriau; nac
- ysgrifennu unrhyw beth i lawr y mae'r ymgeisydd wedyn yn ei ddweud yn uchel.

2.4 Dim ond os yw wedi'i nodi yng nghanllawiau'r corff dyfarnu y gall athrawon sy'n arholi roi ysgogiad i'r ymgeisydd. Ni ddylai athrawon sy'n arholi a'r ymgeisydd gyfathrebu â'i gilydd mewn unrhyw ffordd arall, ar lafar nac yn ysgrifenedig, ar wahân i'r hyn sy'n rhan o'r asesiad ei hun.

2.5 Rhaid recordio asesiad siarad gorffenedig pob ymgeisydd fel trac unigol ar wahân.

2.6 Rhaid i athrawon sy'n arholi ddilyn y siart/grid dilyniant yn ofalus iawn er mwyn osgoi unrhyw orgyffwrdd themâu a fyddai'n gallu effeithio ar farciau'r ymgeiswyr.

2.7 Rhaid cynnal unrhyw ail-brawf sydd wedi'i awdurdodi gan y corff dyfarnu o fewn y cyfnod asesu.